

# CYFFES FFYDD

## 1. Am y Bod o Dduw

Y mae un Duw, ac nid oes ond un gwir a bywiol Dduw. Y mae goleuni naturiol mewn dyn yn dangos fod Duw, Y mae cenhedloedd yn gyffredinol yn addef rhyw beth yn Dduw, neu bethau yn dduwiau. Y mae cydwybod naturiol, wrth gyhuddo pobl am ryw bethau, a'u hesgusodi am bethau eraill, yn profi fod Duw, a bod *person* yn gyfrifol iddo am ei ymddygiadau (a). Y mae y greadigaeth yn profi fod Duw, fel y mae effaith yn profi fod achos ohoni: nis gallasai y greadigaeth *ddod* i fod ohoni ei hun; rhaid bod achos ohoni (b). Y mae pob *person* ei hun yn profi fod Duw. Gan fod y naill ddyn yn dod o'r llall, rhaid fod y cyntaf wedi bod, ac felly rhaid bod Creawdwr i hwnnw.

Y mae trefn, prydferthwch, addasrwydd, cysondeb, a chydsafiad y greadigaeth yn profi fod Duw doeth wedi rhoi bod iddi, ac yn cynnal ac yn llywodraethu y pethau sydd yn bod (c). Y mae y creaduriaid yn ateb dibenion nas gallasant eu trefnu na'u bwriadu; gan hynny, y mae yn amlwg fod Llywydd mawr arnynt oll (d). Y mae y cosbedigaethau dychrynlyd a fu ar rai o elynion Duw mewn amser, a'r dychrynfeydd a fu yng nghydwybodau rhai yn angau, ar ôl gwadu yn eu bywyd bod Duw, yn profi ei fod (e).

### **1. Of the being of God.**

*There is one God and only one true and living God. The light of nature in man proves the being of God. All nations acknowledge a God or god's. Natural conscience, accusing or else excusing, proves the being of God, and Man's responsibility to Him for his actions (a). The creation proves the being of God, as an effect proves it has a cause. The creation could not have come into being of itself : it must have had cause*

*(b). The being of man himself proves the being of God : forasmuch as one man is the offspring of another man, the first man must have existed; consequently, he must have had a Creator.*

*The order, beauty, adaption, harmony, and consistence of the creation proves that a wise God gave it being, and upholds and governs all things (c). All creatures answer purposes which they could not themselves have ordained or designed; it is evident, therefore, that one great Governor rules over all (d). The terrible retributions that have befallen some of God's enemies in this world, and the terrors that have dismayed their consciences at death, after a life spent in denying God, prove his existence (e).*

**(a) 1 Tim. 2:5; Esea/Isa. 44:5; Rhuf./Rom. 2:14,15.**

**(b) Salm/Psa. 19:1-3; Rhuf./Rom. 1:20.**

**(c) Esea/Isa. 40:26; Salm/Psa. 148:5,6; 2 Pedr/2 Pet. 3:5.**

**(d) Salm/Psa. 103:19; Jer. 8:7; Job 39**

**(e) Exod. 5:2, 9:27, 14:25.**